

Cyfarfod Cyngor Ysgol Penweddig - 01/12/2010  
Cofnodion y cyfarfod

Yn mynychu: Megan Lewis (yn cadeirio), Cadan ap Tomos (yn cymeryd cofnodion), Rhydian Fitter, Ieuan Griffiths, Sophie Trotter, Stevie Williams, Osian Pearson, Sam Medeni, Cari Edwards, Ifan Rees, Mme Izri

**Prisiau cinio Nadolig**

Mme Izri yn esbonio bod Kirsty, rheolwraig y ffreutur, wedi newid o'r fwydlen a'i cynigwyd yn wreiddiol i fwydlen yn union fel llynedd, gyda'r pris yn gostwng felly o dros £4 i £3.70 (gan gynnwys pwddin, ond nid diod).

Mae'r cyngor yn awgrymu bod angen mwy o lysiau ar y fwydlen, gan mai dim ond pys a thatws rhost sydd wedi'i nodi. Syniadau am lysiau ychwanegol yn cynnwys moron, bresych, pannas, brocoli ac ati.

Nodwyd bod dim craceri ar y byrddau llynedd, a bod nifer wedi gweld eu heisiau. Awgrymwyd bod diwrnod dillad ein hunain yn cael ei gynnal, gyda rhan o'r arian sy'n cael ei godi yn mynd tuag at brynu pethau fel hynny, a'r gweddill yn mynd i gronfa ddyngarol yr ysgol. Gofynnodd Megan a buasai pobl yn hoffi hynny, ond cytunai'r cyngor bod hyn yn iawn.

Soniwyd hefyd am y miwsig a oedd yn cael ei chwarae dros yr uchelseinydd llynedd, a bod nifer ddim yn ei hoffi oherwydd caneuon Cymreig oeddent.

**GWEITHRED: Sam i greu CD o ganeuon Nadoligaidd i'w chwarae yn y ffreutur yn ystod y cinio.**

**G: Mme Izri i ofyn i'r Cyfeillion os oes ganddynt addurniadau yn sbâr ar gyfer addurno'r ffreutur ar y diwrnod.**

Cododd Cadan bwynt am ddyddiad y cinio (yr 16<sup>eg</sup> o Ragfyr), a bod Cwrs côr bechgyn y sir ar yr un diwrnod ac felly yn absennol o'r ysgol.

**G: Mme Izri i ofyn a yw'n bosib symud y cinio i'r dydd Mercher (yr 15<sup>eg</sup>).**

**Question Time**

Nododd Cadan bod angen codi ymwybyddiaeth o faterion a phenderfyniadau gwleidyddol ymysg pobl ifainc, yn enwedig gan fod nifer ohonynt yn effeithio arnyn nhw. Awgrymwyd felly bod sesiwn *Question Time* yn agored i'r holl ysgol yn cael ei gynnal ar ddiwrnod ABaCh, ac aelodau'r panel fysai'r ymgeiswyr etholiadol yn yr etholiadau Cynulliad blwyddyn nesaf. Cytunodd y cyngor bod hwn yn syniad da.

**Polisi ymddygiad**

Er fod y Cyngor Ysgol blaenorol wedi gweld y polisi ymddygiad newydd roedd Mme Izri eisiau cyflwyno'r polisi i'r cyngor presennol hefyd. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer wythnos nesaf i'w drafod. Nodwyd bod y polisi wedi'i gymeradwyo gan y llywodraethwyr ac wedi bod ger bron y staff eisoes.

**G: Mme Izri i ddarparu copiâu o'r ddrafft bolisi i aelodau'r cyngor cyn y penwythnos iddynt gael eu darllen.**

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Llun, y 6<sup>ed</sup> o Ragfyr yn yr ystafell gyfarfod.